

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Mai 2017

Annwyl Lynne

Deisebau sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau ar hyn o bryd

Rwy'n awyddus ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl a sefydliadau sy'n cyflwyno deisebau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn yr ysbryd hwn, a dyhead i gefnogi cydweithio rhwng pwyllgorau'r Cynulliad, rwy'n ysgrifennu atoch i rannu gwybodaeth am y deisebau rydym yn eu trafod ar hyn o bryd sy'n ymwneud â phynciau o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor.

Mae'r rhestr gyfredol i'w gweld yn atodiad i'r llythyr hwn.

Os yw unrhyw un o'r deisebau yn berthnasol i'ch rhaglen waith gyfredol, bydd o gymorth i ni yn ein trafodaethau pe allwch chi, neu'ch tîm clericio, roi gwybod i ni. Byddwn yn fwy na bodlon rhoi rhagor o wybodaeth i chi am unrhyw un o'r deisebau hyn.

Yn gywir



Mike Hedges AC
Cadeirydd



Atodiad

P-04-408	<u>Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc</u>
P-04-481	<u>Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru</u>
P-04-522	<u>Asbestos mewn Ysgolion</u>
P-04-576	<u>Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol</u>
P-04-606	<u>Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn.</u>
P-04-628	<u>Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb</u>
P-04-679	<u>Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru</u>
P-05-707	<u>Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth</u>
P-05-716	<u>Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru</u>
P-05-722	<u>Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig</u>
P-05-735	<u>Gwneud y cyfnod sylfaen yn fwy effeithiol ar gyfer ein plant, darparu mwy o athrawon a dileu y TASau blwyddyn 2.</u>
P-05-742	<u>Peidiwch â gadael i Forsythia gau!</u>
P-05-746	<u>Cludiant Ysgol am Ddim i Holl Blant Cymru</u>
P-05-748	<u>Bysiau Ysgol i Blant Ysgol</u>
P-05-751	<u>Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant</u>
P-05-752	<u>Meithrin gallu plant i wrthsefyll seiberfwlio</u>



P-05-754	<u>Diffyg Cymorth i Blant ag Anableddau Mewn Argyfwng</u>
Casglu Ilofnodion	<u>Cael Gwared ar y Rhwymedigaeth ar Ysgolion i Gynnal Gweithredoedd Addoli Crefyddol</u>
Casglu Ilofnodion	<u>Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol</u>

